# Rheoli stiwdio radio neu deledu

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â defnyddio stiwdios hunanweithredol a thechnegol weithredol a bod yn ymwybodol o'u hystod o gyfarpar a thechnegau cynhyrchu.

Dydy'r safon ddim yn ymwneud â medru defnyddio darnau unigol o gyfarpar ond hefyd medru cydlynu eu defnydd o dan bwysau.

Mae gofyn ichi ddeall egwyddorion sylfaenol rheoli stiwdios a'r gallu i addasu ar gyfer gwahanol gyfluniadau, ffurfiau a chyfuniadau o gyfarpar.

Mae'r Safon hon yn berthnasol i bawb sy'n rheoli stiwdio yn y diwydiannau radio a theledu.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. dewis ffynonellau sain a gweithredu cyfarpar stiwdio i fodloni gofynion rhaglenni radio neu sain, gweithredu rheoliadau stiwdio, y ddesg gymysgu a system chwarae ddigidol yn gyfamserol,
2. cydweithio gydag eraill yn nhîm cynhyrchu'r stiwdio er mwyn bodloni gofynion rhaglenni radio neu sain
3. datblygu cynlluniau wrthgefn dichonol er mwyn lleihau risgiau o ran gweithredu'n effeithiol
4. ymdrin â gwybodaeth neu gyfarwyddyd drwy glustffonau a meiciau cyswllt heb ymyrryd ar lif darllediad byw
5. defnyddio gwybodaeth ddibynadwy i ganfod y ffynhonnell debygol o broblemau trosglwyddo technegol neu gyfarpar yn methu yn ystod y broses darlledu
6. cywiro cyfarpar sy'n methu neu broblemau trosglwyddo technegol sydd o fewn eich maes arbenigedd
7. gofyn am gymorth gan bobl berthnasol pan fo problemau trosglwyddo technegol tu hwnt i'ch arbenigedd chi
8. cydymffurfio gyda gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol er mwyn lleihau'r risg ichi ac eraill

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. y gwahaniaeth rhwng stiwdios hunanweithredol a thechnegol weithredol
2. dyletswyddau a chyfrifoldebau a hierarchaeth timau cynhyrchu stiwdios
3. y gwahaniaethau rhwng gweithrediadau stiwdio ar gyfer rhaglenni radio neu deledu wedi'u recordio
4. y gwahanol ffurfiau technegol a thechnolegau a ddefnyddir i gysylltu gyda stiwdios eraill
5. egwyddorion sylfaenol gweithredu desg gymysgu, ei gyfarpar, caledwedd a meddalwedd perifferol
6. yr ystod o ffynonellau sain o bell dichonol
7. priodweddau a chyfyngiadau gwahanol systemau chwarae a sut i'w defnyddio
8. defnydd cywir a diogel o glustffonau a meiciau cyswllt, safleoedd meicroffonau a llinell golwg
9. y cynllun, cyfarpar a thechnoleg sydd ar gael a chyfluniad unrhyw stiwdio benodol i'w ddefnyddio
10. pwysigrwydd disgyblaeth dda yn y stiwdio
11. camau amrywiol y broses darlledu radio a theledu er mwyn adnabod pryd yn ystod y broses mae'n bosib y bu problem dechnegol
12. sut i fynd i'r afael â phroblemau yn ystod darllediadau byw heb dynnu sylw'r gynulleidfa
13. pwy ddylid cysylltu gyda nhw am help gyda phroblemau technegol sydd du hwnt i'ch arbenigedd chi
14. y rheoliadau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch perthnasol o ran defnyddio holl gyfarpar y stiwdio

Rheoli stiwdio radio neu deledu

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Maw 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 30 Maw 2022 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | ScreenSkills |
| **RCU gwreiddiol** | SKSJ22 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cyfryngau a chyfathrebu, Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Cyfryngau |
| **Cyfres/Set** | Newyddiaduriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | Radio, Teledu,  Stiwdio, Newyddiaduriaeth |